

## ROC AR LAN Y MÔR YN CROESAWU TEYRNGED I'R BEATLES AR Y STRYD FAWR

### BYDD TREF yn troi'r cloc yn ôl i nodi ei lle mewn hanes cerddorol.

Wrth i albwm eiconig y *Beatles* Sgt Pepper's Lonely Hearts Club Band gyrraedd ei 50 oed, mae Stryd Fawr y Rhyl i'w gweddnewid yn Beatles Street.

Ar ddydd Sadwrn 14 Gorffennaf 1962, chwaraeodd y *Beatles* yng Nghymru am y tro cyntaf, gan hebrwng Beatlemania i'r wlad. Cafwyd y gig gynta yng Nghymru yn y Regent Dansette Ballroom yn y Rhyl, bellach yn gartref i Burton a Dorothy Perkins – ac fe barodd am awr gyda thwristiaid a phobl lleol yn cael eu diddanu am bum swllt yn unig.

Mae plac glas yn dangos yr adeilad lle bu'r *Beatles* yn perfformio a nawr mae'r band teyrnged lleol, The Cavernites, yn cymryd y llwyfan yn stryd fawr y dref ar ddydd Sadwrn 15 Gorffennaf i gofio am y diwrnod hanesyddol.

Trefnir y digwyddiad gan Gyngor Tref y Rhyl ac meddai'r maer, y Cynghorydd Alan James: "Nid oes llawer yn gwybod bod y *Beatles* wedi chwarae yn y Rhyl dair gwaith – ym 1962 yn y Dansette ar y stryd fawr, a chan ddychwelyd flwyddyn yn ddiweddarach ar gyfer dwy sioe yn y Ritz Ballroom a oedd yn agos at yr hen ffair.

"Roedd ymweliad cyntaf y band yn fater mawr i'r dref gyda'r *Beatles* yn treulio'r amser cyn y sioe yn y ffair ac yn cael diod yn y Lorne Pub, drws nesaf i'r Dansette. Ar yr ail ymweliad, buont yn aros yn y Westminster Hotel ar lan y môr. O ystyried cysylltiadau'r dref â'r Beatles a'r ffaith bod 2017 yn dathlu 50 mlynedd un o'u recordiau eiconig, pa well ffordd o ddathlu na thrwy drefnu roc glan y môr go iawn ar gyfer pobl leol a thwristiaid."

Adeg eu perfformiad cyntaf yn y Rhyl, roedd y *Beatles* yn cynnwys John Lennon, Paul McCartney, George Harrison a'r drymiwr Pete Best a adawodd y band fis ar ôl iddynt ymddangos yn y Dansette.

Mwy/...



-2-

Meddai Glenn Mitchell o'r Cavernites: "Roedd nos Sadwrn 14eg Gorffennaf 1962 yn drobwynt yng ngyrfa'r *Beatles*, diwrnod roeddynt yn edrych ymlaen ato gan ei fod yn nodi'r adeg pan fentrodd y grŵp allan o ddinas eu cartref a dechrau'r hyn y byddai'r wasg genedlaethol yn ei alw'n 'Beatlemania'. Roedd gan y rheolwr Brian Epstein gynlluniau mawr ar gyfer y grŵp – roedd yn gwybod eu bod yn mynd i fod yn llwyddiannus, ond i gyflawni hynny roedd yn rhaid iddynt gael eu gweld mewn manau ar wahân Lannau Merswy.

"Yn erbyn y cefndir hwn o newid y deffrodd John Lennon, yn 22 oed, yn gymharol gynnar ar y bore hwnnw o haf a mynd allan i berfformio am y tro cyntaf yng Nghymru. Rydym wrth ein boddau yn medru chwarae yn y Rhyl ar yr achlysur arbennig hwn a dod â'r *Beatles* yn ôl i'r Stryd Fawr, 55 mlynedd yn ddiweddarach.

Bydd y Cavernites yn perfformio'n fyw ar Stryd Fawr y Rhyl rhwng hanner dydd a 4pm ar ddydd Sadwrn Gorffennaf 15. Bydd y gantores deyrnged cerddoriaeth y chwedegau Catherine Cook gyda nhw.

#### Diwedd



[www.rhyltowncouncil.org.uk](http://www.rhyltowncouncil.org.uk)



@rhyltowncouncil



@rhyltowncouncil



